COFNODION Y CYNGOR: Busnes Agored - 12.30 p.m., Dydd Mawrth 26 Medi 2023
Cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd mewn sawl lleoliad, trwy gyfrwng meddalwedd Zoom

Busnes Agored y Cyngor – cofnodion 1 i 11.

1. Presenoldeb ac Ymddiheuriadau

Presennol: John Graystone (yn cadeirio), Jan Tiley, Chris Franks, Marion Burke, Cathy Clark, Jenni Jones-Annetts, Nicole Kinnaird, Stephen Nicholls, Judith Evans, Tim Palazon, Sam Emmett, Salamatu Fada; Dona Lewis (hyd at ddiwedd cofnod 4).
Hefyd yn bresennol: Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau), Mark Baines (Pennaeth Cwricwlwm a Pherfformiad), Stephen Thomas (Ysgrifennydd y Cwmni/Clerc); Iola Llwyd (cyfieithydd – gwasanaeth cyfieithu ar y pryd). Hefyd Rhydian Williams (Rheolwr Datblygu Digidol) hyd at gofnod 5 yn unig.
Ymddiheuriadau: Victory Ezeofor; Siôn Aled Owen.
Roedd cworwm trwy gydol y cyfarfod. Dangoswyd cyflwyniad sleidiau yn cyfleu gweithgareddau diweddar y sefydliad wrth i bobl ymuno â'r cyfarfod yn rhithiol.

2. Ffarwelio

Cyhoeddodd John Graystone mai hwn oedd cyfarfod diwethaf Marion Burke fel llywodraethwr, oherwydd byddai'n ymddeol o'i swydd yn Wales TUC Cymru ym mis Hydref. Diolchwyd iddi am ei chyfraniad fel aelod o'r Cyngor ac am sut roedd partneriaeth gref AOC â'r TUC wedi cael ei gynnal yn ystod ei chyfnod wrth y llyw.

3. Cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 4 Gorffennaf 2023 a materion yn codi

Cafodd cofnodion Busnes Agored cyfarfod (hybrid) blaenorol y Cyngor, a gynhaliwyd trwy gyfrwng Zoom, eu cymeradwyo fel cofnod cywir. Roedd yr holl bwyntiau gweithredu a restrid ar ddiwedd y cofnodion hynny wedi cael eu gweithredu.

4. Adroddiad y Prif Weithredwr, Medi 2023

Cyflwynwyd yr adroddiad trwy gyfrwng cyflwyniad PowerPoint. Fe wnaeth Kathryn Robson, Mark Baines a Cath Hicks rannu'r gwaith o ymhelaethu ynghylch yr adroddiad. Roedd dau diwtor wedi ennill gwobrau yn seremoni wobrwyo Ysbrydoli! yn gynharach yn ystod y flwyddyn (ac wedi rhoi cyflwyniadau yn ystod cyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf), ac roedd tri dysgwr wedi ennill gwobrau yn y seremoni Ysbrydoli! cyfatebol i ddysgwyr yn gynharach yn y mis. Nid oedd cais Kathryn Robson i ddod yn aelod o Fwrdd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, ond gobeithiai y byddai'n cael ei dewis yn aelod o is-

bwyllgorau'r Comisiwn yn y dyfodol. Roedd hi'n dal yn gadeirydd Rhaglen Genedlaethol Cydlynu'r Adolygiad o Addysg Oedolion. Cafwyd trafodaeth ynghylch presenoldeb AOC yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan ym mis Awst, a byddai adroddiad yn cael ei ysgrifennu ynghylch hynny. Roedd bod yn rhan o stondin y Trydydd Sector wedi cynnig cyfleoedd da i rwydweithio, ond cafwyd nifer lai o ymwelwyr o gymharu â'r digwyddiad y flwyddyn flaenorol. Roedd cyfranogiad y sefydliad mewn digwyddiadau cyhoeddus eraill yn cael ei ystyried ar gyfer 2023-24.

Wrth drafod materion y cwricwlwm, nodwyd unwaith eto bod darpariaeth ESOL yn broffidiol, ac yn sgil yr adolygiad o'r polisi ariannu a oedd ar y gweill, roedd yn bosibl y deuai'n fwy manteisiol fyth i'w addysgu o safbwynt ariannol. Cyfeiriodd rhai aelodau penodol o'r Cyngor unwaith eto at y pryderon a fynegwyd yn ystod cyfarfodydd y pwyllgorau am y gormodedd posibl a'r diffyg cydbwysedd a oedd yn cael ei achosi gan y newid cyfeiriad sylweddol at waith ESOL, a'r angen i barhau i ymdrechu i sicrhau rhagor o nawdd nad oedd yn deillio o gronfeydd Llywodraeth Cymru fel dull o arallgyfeirio'r ddarpariaeth. Roedd elusen Chwarae Teg hefyd wedi cael arian sylweddol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyrsiau addysgiadol yr oeddent yn eu rhedeg, ac roedd y ffaith fod yr elusen honno wedi mynd i'r gwellt yn ddiweddar yn amlygu risgiau posibl gorddibynnu ar arian o'r un ffynhonnell. Fodd bynnag, roedd yn bosibl bod cyfleoedd ar gael i AOC ymgymryd â rhywfaint o'r ddarpariaeth oedd wedi'i chynnal gan yr elusen.

Gellid gweld, yn sgil ffigurau blwyddyn academaidd 2022-23, bod 92% o darged Llywodraeth Cymru wedi cael ei gyflawni, ac roedd hynny'n ganmoladwy. Roedd blaengareddau newydd y flwyddyn yn cynnwys cynnig i gydweithio â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (PCDDS) fel 'athrofa dechnegol', gan alluogi AOC i barhau â'i waith ym maes addysgu gweithwyr ieuenctid hyd at Lefelau 4, 5 a 6. Roedd Caffi Atgyweirio Port Talbot (sydd wedi'i leoli yn yr Hwb yno) yn ddatblygiad diweddar arall a allai dorri tir newydd. Trafodwyd ffigurau'r adborth gan ddysgwyr, a goblygiadau'r cyfraddau eithriadol o uchel o ran bodlonrwydd, a rhannwyd rhagor o wybodaeth ynghylch datblygiadau a chyfranogiad ar y lefel ryngwladol.

5. Cynllun Strategol Digidol ar gyfer Addysg Oedolion Cymru

Roedd dogfen y strategaeth wedi'i hanfon at bawb ymlaen llaw. Fe wnaeth Rhydian Williams gyflwyno'r eitem hon gan ddefnyddio meddalwedd Prezi i gyfleu'r pwyntiau allweddol, a chyfaddefodd ei bod hi'n ddogfen gweddol sych a thechnegol ond yn un hanfodol, oherwydd roedd natur a chynnwys y ddogfen yn cynnig ymateb i ofynion Llywodraeth Cymru. Roedd y ddogfen hon yn manylu ar ymrwymiadau'r Sefydliad o ran cynllun Fframwaith Digidol 2030, ac yn cynnwys nifer o flaenoriaethau mewnol ac allanol. Roedd JISC wedi bod yn cydlynu gwaith ynghylch y cynllun Cymru gyfan hwnnw ers 2019, ac fel Rheolwr Datblygu Digidol y Sefydliad, roedd Rhydian wedi bod yn arwain cyfraniadau AOC at y broses. Roedd Llywodraeth Cymru yn fodlon â'r Cynllun Strategol fel yr oedd, ac roedd angen i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr ei llofnodi at ddibenion ei chadarnhau'n fewnol yn ffurfiol.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y defnydd cynyddol o systemau cwmwl, o ran eu diogelwch. Sicrhawyd y Cyngor ynghylch y mesurau i ddiogelu'r systemau hyn rhag darpar seibr-droseddwyr. I'r gwrthwyneb, roedd nawdd Llywodraeth Cymru yn ymwneud yn bennaf â deunyddiau ffisegol ac nid oedd wedi cael ei addasu'n ddigonol at ddibenion ariannu isadeileddau rhithiol/cwmwl priodol. Felly, byddai angen defnyddio adnoddau mewnol i dalu am lawer o'r newid oedd ar ddigwydd yn y maes hwnnw.

Cafodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr gymeradwyaeth gan y Cyngor i lofnodi'r ddogfen.

6. Cyfrifon Rheoli 1 – 31 Awst 2023 (mis cyntaf y flwyddyn ariannol yn unig)

Roedd hi'n rhy gynnar yn y flwyddyn ariannol i nodi'r tueddiadau cyffredinol, ond roedd rhai o'r heriau a oedd ar y gorwel yn eglur. Roedd cyllideb y flwyddyn yn cynnwys darpariaeth i ariannu cynnydd mewn cyflogau, ond gallai'r swm penodol a gymeradwyir fod yn fwy na hynny, ac nid oedd sicrwydd y byddai Llywodraeth Cymru yn darparu arian i wneud iawn am y diffyg. Yn wir, yr oedd Llywodraeth Cymru yn wynebu diffyg cyffredinol gwerth £900 miliwn trwy gyfrwng ei fformiwla ariannu, ac yn ddiweddar yr oedd wedi gofyn i bob sefydliad addysg bellach baratoi at ostyngiad o 10% yn eu cyllideb ar gyfer 2024-25. Roedd trafodaethau ynghylch hynny yn dal i fynd rhagddynt. Holwyd a fyddai sefyllfa iach cronfeydd ariannol y Sefydliad yn ffactor a fyddai'n mynd yn ein herbyn o ran ystyriaethau ariannol, ond fe wnaeth Mark Baines sicrhau'r Cyngor na ddylai hynny ddigwydd.

7. Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth - camau yn cael eu cymryd gan Addysg Oedolion Cymru

Esboniodd Cath Hicks fod AOC yn rhan o weithgor gan ColegauCymru/Llywodraeth Cymru a oedd newydd gael ei sefydlu i fynd i'r afael â'r mater hwn. Roedd yn ymddangos fod sefyllfa'r Sefydliad yn debyg i sefyllfa llawer o golegau, gan gredu nad oedd unrhyw bryderon yr oedd angen ymateb iddynt yn ddi-oed mewn perthynas ag adeiladau yr oedd staff y swyddfeydd yn gweithio ynddynt. Fodd bynnag, nid oedd y sector addysg bellach wedi cynnal archwiliadau i ganfod y deunydd hwn yn y gorffennol, a byddai angen cynnal arolygon costus iawn a fyddai'n achosi llawer o darfu i wybod yn sicr bod y rhagdybiaethau cadarnhaol yn wir. Nododd y Cyngor gynnwys yr adroddiad.

8. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2023

Fe wnaeth Chris Franks gyflwyno'r cofnodion yn gryno, a nododd y Cyngor gynnwys y cofnodion.

9. Cofrestr Risgiau Medi 2023

Roedd uwch reolwyr wedi adolygu/diweddaru'r gofrestr i adlewyrchu'r sefyllfa ar y pryd. Holwyd a oedd angen parhau i gynnwys Risg 5.1.3 (ynghylch Covid-19). Roedd rheolwyr wedi ystyried diddymu'r risg hon, ond rhwng popeth, ystyrid ei bod yn briodol ei chynnwys yn y gofrestr, oherwydd roedd sawl aelod o'r staff wedi dal Covid-19 yn ystod yr wythnosau diweddar.

10. Hunan-arfarniad o drafodion y cyfarfod gan aelodau'r Cyngor

Roedd rhai o aelodau'r Cyngor hefyd wedi cyfranogi mewn gweithdy hyfforddiant ynghylch Gwrth-hiliaeth a gafodd ei gynnal y bore hwnnw gan y Grŵp Arweinyddiaeth Pobl Ddu, ac ym marn y cyfranogwyr roedd wedi bod yn brofiad diddorol, cyfranogol a difyr. Credai rhai aelodau penodol o'r Cyngor y gellid cynnig rhyw fath o gyfaddawd o ran rhannu adroddiad y Prif Weithredwr pan fyddai ar gael fel cyflwyniad yn ystod cyfarfodydd, ac y gellid parhau i'w anfon at yr aelodau ymlaen llaw (ar ffurf dogfen fwy cryno efallai). Cafwyd cais hefyd i sicrhau bod papurau unigol oedd yn rhan o'r agenda yn cael eu gwahanu mewn modd mwy effeithiol, yn hytrach na'u cyfuno i greu un ddogfen PDF i'w hanfon.

11. Dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd eraill yn ystod blwyddyn academaidd 2023-24

- Dydd Sadwrn 25 Tachwedd 2023: Ffair Nadolig, Hwb Dysgu Port Talbot
- Dydd Llun 29 Ionawr 2024

- Dydd Llun 11 Mawrth 2024
- Dydd Mawrth 9 Ebrill 2024 (y Gynhadledd Flynyddol a'r CCB - Theatr Soar, Merthyr Tudful)
- Dydd Mercher a Dydd Iau, 22 a 23 Mai 2024 (Digwyddiad Cynllunio Strategol – Nant Gwrtheyrn, Gwynedd)
- Dydd Gwener 5 Gorffennaf 2024

Cynigiwyd y dylai cyfarfod nesaf y Cyngor, ddydd Mawrth 28 Tachwedd 2023, fod yn gyfarfod wyneb yn wyneb, ac y dylid ei gynnal yng Nghaerdydd neu Lyn Ebwy. Fodd bynnag, ni fyddai'r Cadeirydd ar gael ar y dyddiad penodol hwnnw, ac roedd hynny'n creu cymhlethdod. **Cytunwyd y byddai'r Clerc yn anfon manylion dyddiadau posibl eraill ar gyfer y cyfarfod at bawb, i ganfod pa un fyddai'n fwyaf addas i aelodau'r Cyngor.**

PWYNTIAU GWEITHREDU

Cyfeirnod	Enw'r cofnod	Cam gweithredu a gytunwyd	Pwy ddylai weithredu	Erbyn pryd ddylid gweithredu
Cofnod 5	Cynllun Strategol Digidol ar gyfer Addysg Oedolion Cymru	Cafodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr gymeradwyaeth gan y Cyngor i lofnodi'r ddogfen.	KR / John Graystone	Hydref 2023
Cofnod 11	Dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd eraill yn ystod blwyddyn academaidd 2023-24	Cytunwyd y byddai'r Clerc yn anfon manylion dyddiadau posibl eraill ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd y Cyngor at bawb, i ganfod pa un fyddai'n fwyaf addas i aelodau'r Cyngor.	ST	Hydref 2023